

# Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni/Gwarcheidwaid

## Ysgol Gymuned Cwm y Glo



# Medi 2016





**Ysgol Gymuned Cwm y Glo**  
**Cwm y Glo**  
**CAERNARFON**  
**Gwynedd**  
**LL55 4DE**

**Pennaeth /Head teacher:**  
**Mrs.Nia G. Oliver B.Add./ B.Ed.**



**01286 870 860**



**NiaGlynOliver@gwynedd.llyw.cymru**

Annwyl rieni/gwarcheidwaïd,

Croeso i'n hysgol ni. Mae'r llawlyfr hwn wedi ei gynhyrchu er mwyn cynnig peth gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaïd, disgyblion a darpar ddisgyblion am waith a gweinyddiad Ysgol Cwm y Glo.

Ysgol Gynradd Sirol yw'r ysgol hon. Derbynnir disgyblion yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'n un o saith ysgol gynradd sydd o fewn dalgylich Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Rydym yn ymfalchïo bod ein hysgol yn gymuned hapus a gofalgar ac ymdrechir i hyrwyddo twf ysbrydol a moesol y plant. Meithrinir yma gyswllt agos gyda phob teulu a gweithredir bolisi o ymateb i broblemau neu anawsterau drwy drafod gyda'r rhieni. Partneriaeth yw addysg rhwng yr ysgol a'r rhiant er budd ein plant. Mae ein dylanwad ni a'ch cefnogaeth chi yn amhrisiadwy yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol eich plentyn.

**Ein nod yw sicrhau addysg o'r ansawdd orau i'n disgyblion mewn awyrgylch hapus, diogel a gofalgar.**

Er bod y wybodaeth yn y llawlyfr yn gywir ar adeg ei gyhoeddi, ni ellir gwarantu na fydd ambell newid yn digwydd na ellir ei ragdybio - a allai effeithio ar rai trefniadau yn ystod y flwyddyn nesaf. Bwriedir ef fel canllaw yn unig.

Felly, ar ran y Corff Llywodraethol ac athrawon Ysgol Cwm y Glo, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r llawlyfr hwn i'ch sylw. E drychaf ymlaen i gydweithio â chi.

Yn ddiffuant,

Nia G. Oliver

## AMCANION YR YSGOL

- Darparu addysg o'r ansawdd gorau posibl, sy'n adlewyrchu anghenion yr unigolyn, anghenion cymdeithas, yr awdurdod Addysg a'r Llywodraeth trwy gyfrwng y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- Creu awyrgylch ac amgylchedd hapus, diogel a brwdfrydig ble gall plant dyfu, datblygu ac aeddfedu'n unigolion hyderus, bod yn ymwybodol o les pobl eraill, a bod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas.
- Galluogi pob disgybl i ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn eu galluogi i gyfrannu'n llawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol ein cymdeithas ddwyieithog.
- Rydym yn darparu rheolaeth bendant yn y dosbarth gan sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o reolau'r ysgol fel bod y plant a'r staff yn teimlo'n ddiogel. Rydym yn rhoi bri ar bresenoldeb a phrydlondeb ein disgyblion yn yr ysgol.
- Ein nod yw gwneud yr ysgol yn rhan gyfannol o'n cymuned leol, trwy sicrhau cysylltiadau â busnesau a sefydliadau lleol a gwneud plant yn ymwybodol o bwysigrwydd eu hamgylchfyd.

*Gweler yr amcanion hyn wedi eu harddangos o amgylch yr Ysgol er mwyn ein hatgoffa ni i gyd ohonynt!*

## CYSYLLTIADAU YN YR YSGOL

Ysgol Cwm y Glo  
Cwm y Glo  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 4DE

Rhif ffon: 01286 870 860

e-bost: [niaglynoliver@gwynedd.llyw.cym](mailto:niaglynoliver@gwynedd.llyw.cym)

Gwefan: <http://www.ysgolcwmyglo.org>

Pennaeth Mrs. Nia G. Oliver

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr. Euron Davies

### Awdurdod Addysg Lleol

Mae Ysgol Cwm y Glo dan reolaeth Cyngor Gwynedd.

Pennaeth y Gwasanaeth: Arwyn Thomas 01286 679 089

Uwch Reolwr Adnoddau: Owen Owens 01286 679 169

Uwch Reolwr ADY: Gwern ap Rhisiart 01286 679 552

Swyddog Addysg Ardal Gwynedd: Diane Jones 01286 679 861

Swyddog Gweinyddol: Eirian Wrench

Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Gwynedd  
Ffordd y Cob  
Pwllheli  
Gwynedd  
LL53 5AA (01758 704 114)

Swyddog Lles: Linda Jones 0777 55 00 977

**STAFF YR YSGOL – 2016/ 2017**

**Pennaeth ac Athrawes**

Dosbarth Peris (M, D, Bl 1 a 2)

Mrs. Nia G. Oliver

**Athrawes**

Dosbarth Marchlyn (Bl. 3, 4, 5 a 6)

Miss Eleri E. Jones

**Cymhorthydd dosbarth**

Mrs. Wendy Roberts (*Miss Smith*)

**Cogyddes/Clerc Cinio**

Mrs. Janet Taylor (*Anti Janet*)

**Gofalwraig**

Mrs. Christine Jones (*Anti Chris*)

**Arolygwyr amser cinio**

Wendy Roberts, Eleri Jones

**Nyrs yr ysgol**

Bethan Jones

**Swyddog Lles**

Linda Jones

**LLYWODRAETHWYR YR YSGOL 2015 - 2016**

<b>ENW</b>	<b>SWYDDOGAETH</b>	<b>CYNRYCHIOLI</b>
<b>EURON DAVIES</b>	<u>Y CADEIRYDD</u> Iechyd a diogelwch, Disgyblu a diswyddo Staff Disgyblu a gwahardd disgyblion. Cwynion Adolygu tal. Apêl adolygu tal Is – banel cyllid. Penodiadau a staffio Polisiâu. Iaith	RHIENI / CADEIRYDD
<b>DAVID ROBERTS</b>	<u>IS GADEIRYDD</u> Cydraddoldeb hiliol, Apêl Disgyblu a Diswyddo Staff, Disgyblu a Gwahardd Disgyblion, Cwynion, Is banel cyllid. Adeiladau, Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth	CYMUNEDOL / IS GADEIRYDD
<b>AMY ROBERTS</b>	Adeiladau, Apêl Adolygu Tal, Apêl Disgyblu a Diswyddo.	AWDURDOD ADDYSG
<b>AARON BAYLEY</b>	Amddiffyn Plant, Disgyblu a gwahardd disgyblion. Adolygu tal/Apêl adolygu tâl, Is-banel cyllid, Penodiadau a Staffio Polisiâu, Mathemateg	CYMUNEDOL
<b>OSIAN JONES</b>	Anghenion Dysgu Ychwanegol, Apêl Disgyblu a Diswyddo Staff, Adolygu Tal/Apêl Adolygu Tal, Penodiadau a Staffio, Celf	RHIENI
<b>DONNA WILLIAMS</b>	Disgyblu a Diswyddo Staff. Cwynion. Dyniaethau. Siarter Iaith Gymraeg	RHIENI
<b>WENDY ROBERTS</b>	Siarter Iaith Gymraeg, Adeiladau	STAFF ATEGOL
<b>NIA OLIVER</b>		PENNAETH <a href="mailto:niaglynoliver@gwynedd.gov.uk">niaglynoliver@gwynedd.gov.uk</a>
<b>Dim Cynrychiolaeth</b>		STAFF ADDYSGU
<b>ALAN PRITCHARD</b>	Disgyblu a diswyddo staff. Polisiâu. Dylunio a thechnoleg.	CYNGOR CYMUNED
<b>ELERI JONES</b>	---	CLERC Y LLYWODRAETHWYR <a href="mailto:elerielenjones@gwynedd.gov.uk">elerielenjones@gwynedd.gov.uk</a>

## TREFNIADAETH YSGOL

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod/lau/Meithrin) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

Mae cysylltiad rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol, Ysgol Brynrefail yn Llanrug. Trefnir cyd-drafod ac ymweliadau rhwng athrawon a rhieni cyn i blant drosglwyddo.

Mae plant 3 – 7 oed yn dod o dan y Cyfnod Sylfaen. Mae plant 7–11 yn dod o dan Gyfnod Allweddol 2. O fewn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 disgwylir i'r plant gael profiadau ym mhynciau cwricwlwm cenedlaethol a ystyrir yn addas ar eu cyfer.

Mae dau ddsbarth yn yr ysgol eleni:

**Dosbarth Peris** - (Cyfnod Sylfaen) Meithrin/Derbyn, Blwyddyn 1 a 2,

**Dosbarth Marchlyn** - (Cyfnod Allweddol 2 ) Blwyddyn 3, 4, 5 a 6.

Fe drefnir yr addysgu mewn dulliau amrywiol yn ôl anghenion y disgyblion a gofynion y dasg: dosbarth cyfan, grwpiau gallu, grwpiau cymysg, gwaith pâr, dysgu unigol ac hyd yn oed ysgol gyfan. Ceisir diwallu anghenion pawb gan roi'r un anogaeth a chynhaliaeth i bob aelod o fewn y dosbarth.

Mae gofynion statudol hefyd yn rhoi 10% o amser addysgu yn ddigyswllt i athrawon. Yma yn Ysgol Cwm y Glo rydym yn rhannu arbenigedd i gyflawni hyn.

### Tymor yr Ysgol 2016 – 2017

Hydref 2016	1 Medi 2016	-	16 Rhagfyr 2016
Gwanwyn 2017	3 Ionawr 2017	-	7 Ebrill 2017
Haf 2017	24 Ebrill 2017	-	21 Gorffennaf 2017

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Gwener, 2il o Fedi, 2016.

### GWYLIAU:

24 Hydref 2016 – 28 Hydref 2016	(Hanner-Tymor)
19 Rhagfyr 2016 - 2 Ionawr 2017	(Gwyliau'r Nadolig)
20 - 14 Chwefror 2017	(Hanner-Tymor)
10 – 21 Ebrill 2017	(Gwyliau'r Pasg)
1 Mai 2017	(Calan Mai)
29 Mai – 2 Mehefin 2017	(Hanner-Tymor)
24 Gorffennaf – 31 Awst 2017	(Gwyliau'r Haf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ar ddydd Gwener, 1af o Fedi, 2017 i athrawon, ac ar ddydd Llun 4ydd o Fedi i ddisgyblion.

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2016	22
HYDREF 2016	16
TACHWEDD 2016	22
RHAGFYR 2016	12
IONAWR 2017	21
CHWEFROR 2017	15
MAWRTH 2017	23
EBRILL 2017	10
MAI 2017	19
MEHEFIN 2017	20
GORFFENNAF 2017	15
	----
	195
	----

1af o Fedi 2016 - Diwrnodau dan Reolaeth Ysgol

4 Diwrnod Hyfforddiant

Daw hyn a'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau, yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.

### **Oriau Dysgu**

Mae'r oriau dysgu yn 25 awr yr wythnos i'r plant lau, 22.5 awr i'r Babanod - oni bai am y Meithrin.

Mae sesiwn y bore rhwng 9:00 - 12:00 o'r gloch,

Sesiwn y prynhawn rhwng 1:00 - 3:00 o'r gloch i'r Babanod  
1:00 - 3.00 i'r plant Meithrin

1:00 - 3.30 o'r gloch i'r plant lau.

*Mae'r gloch ysgol yn canu ychydig o funudau cyn i'r sesiwn gychwyn er mwyn annog pawb i gychwyn y sesiwn yn brydlon.*

### **Trefn y Diwrnod**

8.55	Cloch 'dod i linell' yn canu
9.00	Yr ysgol yn cychwyn
10.40	Egwyl y bore (20 munud)
11.00	Ail sesiwn y bore
12.00 – 1.00	Awr ginio
1.00	Sesiwn y pñawn
2.15	Egwyl y pñawn (10 munud)
2.25	Sesiwn olaf y dydd
3.00	Diwedd y dydd i'r Cyfnod Sylfaen
3.30	Diwedd y dydd i Gyfnod Allweddol 2



Bydd aelodau o'r staff yn goruchwyllo'r plant yn ystod y cyfnodau egwyl a'r awr ginio.

Bydd gofal am blant 10 munud ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

Mae giât ddwbl yr ysgol yn cael ei chau am 8.40 a ni fydd yn cael ei hagor wedyn tan ar ôl 9.10 y bore (*ni chaniateir symud ceir ar y buarth pan mae plant yn yr ysgol os nad oes wir angen*), pan ddylai pob plentyn fod yn y dosbarth. Serch hynny, gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd y brif fynedfa yn ddiogel os ydynt yn cyrraedd yn hwyr am unrhyw reswm.

## **POLISI DERBYN**

Mae'r Awdurdod Addysg yn derbyn plant i'r Meithrin ar ddechrau'r flwyddyn ysgol pryd y bydd y plentyn yn 3 oed cyn Awst 31.

Mae'r Awdurdod Addysg yn derbyn plant i'r Derbyn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol pryd y bydd y plentyn yn 4 oed cyn Awst 31.

Rhaid gwneud cais cyntaf am dderbyniad i'r ysgol drwy gysylltu a'r Pennaeth neu drwy lenwi'r ffurflen berthnasol a'i dychwelyd i'r swyddog mynediad yn Adran Addysg Cyngor Gwynedd. Cewch fanylion llawn ar safle we Gwynedd, [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru) Mynediad i Ysgolion.

## **CYSYLLTU Â'R YSGOL**

Gellir cysylltu trwy ffonio, llythyru, e-bostio neu wrth gwrs wyneb yn wyneb. Pan mae'r Pennaeth yn y dosbarth mae'r peiriant ateb yn cadw negeseuon a byddwn yn ymateb cyn gynted a bo modd (yn ystod amser cinio, neu ar ôl 3 o'r gloch fel arfer.)

Mae croeso i rieni gysylltu a'r ysgol i drafod unrhyw fater, ond gofynnwn i chwi wneud apwyntiad os ydych yn dymuno cael sgwrs bellach. Fel arfer mae'r Pennaeth ar gael ar ôl 3 o'r gloch ar ddyddiau Llun i Iau.

## **CYRRAEDD YR YSGOL**

Mae'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am y plant am 10 munud cyn, ac ar ôl, pob sesiwn dysgu.

Atgoffwn y rhieni yn rheolaidd nad oes gan athrawon gyfrifoldeb am y plant yn swyddogol tan 8:50 a.m. a na ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn hynny.

Mae'r athrawon ar y buarth ac wrth y drws yn derbyn y plant a gofynnwn yn garedig i rieni beidio dod i mewn wrth drosglwyddo'r gofal yn y bore.

## **GADAEL YR YSGOL**

Dylai'r rhieni ddod i gyfarfod y plant at giât yr ysgol a bydd yr athrawon yn eu danfon yn ddiogel.

Os digwydd i riant fod yn hwyr yn dod i nôl plentyn, bydd yr athrawes yn mynd ag ef yn ôl yn ddiogel i'r dosbarth. Gofynnir i rieni sy'n hwyr ddod i mewn i'w nôl.

## PRESENOLDEB YN YR YSGOL

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw plentyn am wneud y cynnydd gorau posibl. Mae'n **ddyletswydd gyfreithiol** ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd ac i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, yn daclus ac mewn cyflwr i'w dysgu.

Cyfrifoldeb y rhieni yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb eu plentyn cyn gynted a bo modd. Gallwch ffonio neu gyrru e-bost. Gofynnwn i rieni gysylltu gyda ni cyn 9 o'r gloch os yw plentyn yn absennol neu am fod yn hwyr. Ni chawn dderbyn esboniad gan y plentyn ei hunan. Os nad yw hyn yn bosib, gofynnir am eglurhad ysgrifenedig dros yr absenoldeb pan mae'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol.

Rydym yn cofrestru gyda dull electroneg Simms yr Awdurdod Addysg Leol ac yn nodi prydlondeb cyrraedd yr Ysgol.

O dan adran 199 Deddf Addysg 1993, rhaid i'r ysgol gofnodi pob disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr yn ogystal â phob absenoldeb. Mae gan yr ysgol drefn o ofyn am eglurhad ysgrifenedig gan rieni dros unrhyw amhrydlondeb.

Ynghlwm a'r canllawiau newydd, gan yr ysgol y mae'r hawl i gymeradwyo absenoldeb ac nid gan y rhieni. Rhaid i'r ysgol roi eglurhad am bob achos o absenoldeb a phenderfynu a yw'n "absenoldeb gydag awdurdod" (e.e. salwch) neu'n "absenoldeb anawdurdodedig (heb awdurdod)" (e.e. mynd i siopa)

Gofynnwn yn garedig i rieni ystyried yn ofalus, a pheidio tynnu eu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor. Rydym yn credu'n gryf bod parhad yn holl bwysig i sicrhau dysgu effeithlon a dylai rhieni roi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau ar y plentyn o'i dynnu allan o'r ysgol.

Serch hynny, gellir caniatáu hyd at ddeg diwrnod o wyliau yn ystod blwyddyn addysgol - **ond** mae'n rhaid cael ffurflen bwrpasol gyda chaniatâd y Pennaeth gogyfer hyn. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i bob cais unigol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Swyddog Lles yr Awdurdod wrth ymateb i godi canrannau presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## TYWYDD GARW

Os ceir rhybudd eira trwm gan y Swyddfa Dywydd, trosglwyddir neges am tua 8 o'r gloch y bore trwy orsafoedd radio Cymru, Wales a 'Heart' os yw'r Ysgol yn methu agor. Cyflwynir y neges hefyd ar wefannau'r gorsafoedd, ynghyd â gwefan Gwynedd [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru) ac [www.ysgolcwmyglo.org](http://www.ysgolcwmyglo.org)

Os yw'r pennaeth wedi llwyddo i gyrraedd yr ysgol bydd yn hysbysebu rhieni drwy e-bost a neges destun hefyd.

## **GWISG YSGOL**

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol sy'n cynnwys llun y dylluan, sef logo'r ysgol. Credem fod gwisgo'r wisg yn arwain at ymdeimlad o berthyn a balchder .



Rydym bellach yn gwerthu'r wisg ein hunain trwy gwmni School Trends.

Y wisg -

Crys polo glas golau

Crys chwys glas tywyll

Sgert / trowsus glas tywyll

Erbyn hyn gellir hefyd prynu côt, cap, ffrogiau gingham a.y.b. efo logo'r ysgol arnynt.

Ar daith addysgol neu drip, bydd y plant yn gwisgo'r wisg ysgol fel y gellir eu hadnabod yn hawdd a'u bod yn cynrychioli enw'r ysgol.

**\*Dalier Sylw** - Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn / plant yn gwisgo esgidiau addas ar gyfer yr ysgol (esgid sy'n ffitio'r droed yn ddiogel ond heb sawdl uchel a sandal sydd yn cynnig rhyw fath o amddiffyniad i droed y plentyn, nid 'flip flops', yn yr haf.)

**Addysg Gorfforol** - Mae'r disgyblon angen crys-T, trowsus byr ac esgidiau addas.

Rydym yn gofyn i'r plant newid eu dillad ar gyfer gwersi addysg gorfforol er mwyn iddynt ddysgu sgiliau wrth wneud ac i hyrwyddo'r syniad o lendid corfforol.

### ***GOFYNNWN I BAWB SICRHAU FOD ENWAU'R DISGYBLION AR BOB DILLEDYN!***

GEMWAITH -Am resymau diogelwch dim ond wats a stydiau clust a ganiateir yn yr Ysgol.

## **Y SEFYLLFA IEITHYDDOL**

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Cwm y Glo ac mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Mae'r ysgol yn cefnogi 'Siarter Iaith Gymraeg' yr Awdurdod sydd yn hyrwyddo y defnydd cymdeithasol o'r iaith.

Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd a'ch plant yn ran o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg (er bod llawer o rieni'n penderfynu dysgu'r iaith), ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant.

Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, bydd pob gohebiaeth o'r ysgol yn ddwyieithog.

## POLISI IAITH YR AWDURDOD

### Amcanion cyffredinol

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog drwy holl ysgolion Gwynedd. Atgyfnerthir y polisi hwn yn yr ysgol hon yn ei holl weinyddiad, gyda'r bwriad o ddatblygu medrau ieithyddol y plant i fod yn hyderus yn holl agweddau'r ddwy iaith cyn trosglwyddo i'r sector uwchradd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo 'Siarter Iaith Gymraeg' yr Awdurdod ac yn annog y defnydd gymdeithasol o'r iaith yn holl weithgareddau'r ysgol.



### Nodau pendant yr ysgol hon:

Y Cyfnod Sylfaen:

- Sicrhau sylfaen gadarn i bob plentyn yn y Gymraeg.
- Adeiladu ar y sylfaen hynny drwy flynyddoedd y Babanod.
- Cadarnhau, atgyfnerthu a datblygu y dysgwr Cymraeg.
- Magu hyder a datblygu gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar yr iaith Saesneg.

Adran Iau

- Parhau i atgyfnerthu a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn ymhob agwedd er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn hyderus yn y **ddwy iaith** cyn trosglwyddo o'r sector Gynradd i'r Uwchradd.
- Darperir trefniant arbennig yn y Ganolfan Iaith yng Nghaernarfon ar gyfer hwyr ddyfodiaid di – Gymraeg rhwng 7 ac 11 oed.

### DATGANIAD CWRICWLWM

Ceisir sicrhau bod yr addysg sydd yn cael ei chynnig yn eang a chytbwys. Credir bydd yr addysg yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob plentyn sydd yn yr ysgol. Rydym hefyd am wneud yn siŵr fod y cwricwlwm yn addas ar gyfer pob plentyn.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cyflwyno'r hyn sy'n statudol arnom yn sgil y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.



### Cyfnod Sylfaen

Nid yw plant o dan 7 oed yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn hytrach darperir cwricwlwm sydd yn hybu datblygiad a dealltwriaeth mewn chwe maes:

- Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu
- Datblygiad personol a chymdeithasol
- Datblygiad mathemategol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Datblygiad corfforol
- Datblygiad creadigol.

## Cyfnod Allweddol 2

Cyflwynir y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ffurf gweithgareddau thematig a phynciol.

**Pynciau Craidd:** Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg. Cyflwynir rhain nid yn unig fel ‘pynciau’ ond hefyd yn dragwyddol drawsgwricwlaidd.

**Pynciau Sylfaen:** Hanes, Daeryddiaeth, Celf, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Gorfforol a Cherddoriaeth.

Rhoddir pwyslais ar sgiliau Llythrennedd a Rhifedd gan glustnodi oddeutu awr y dydd i feithrin sgiliau iaith a rhif y disgyblion.

Cyflwynir y gwaith mewn amrywiol ddulliau o drefniant – dosbarth cyfan, grwpiau, deuoedd, unigol neu ar y cyd efo dosbarth arall. Ceir cydbwysedd o ddulliau a benderfynir arnynt yn ôl y dasg, y disgyblion a’r lefel o gynhaliaeth a roddir. Ceir hefyd yma waith sy’n wahaniaethol ei amcan neu ei gynnwys er mwyn rhoi cynhaliaeth ac ymestyniad i holl blant y dosbarth. Yn aml gwelir mai ymweliad yw’r dull mwyaf buddiol o gyflwyno neges.

**Addysg Grefyddol:** Gweithredir Maes Llafur Cytunedig Sir Gwynedd ac Ynys Môn yn yr ysgol. Cristnogaeth yw prif ffocws y gweithgareddau. Cyflwynir agweddau o’r ffydd Iddewig ac Islam yn ychwanegol fel bod y plant yn dechrau deall fod gan bobl eraill gredoau gwahanol.

**Addoliad:** Cynhelir pedwar cyfnod o addoliad ysgol gyfan yn yr ysgol, ac un cyfnod ychwanegol yn y dosbarthiadau. Yn y cyfnodau hyn, Cristnogaeth yw canolbwynt y gweithgareddau. Anogir y disgyblion i feithrin parch at ei gilydd ac at bobl eraill. Mae gan y rhieni hawl i neilltuo eu plant o’r addoliad.

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol:** Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ofyn statudol ac rydym yn cyflwyno hyn fel rhan o weithgareddau dosbarth ac yn drawsgwricwlaidd. Yn ogystal defnyddir y Gwasanaeth Boreol ac Amser Cylch i’w cyflwyno.

Mae’r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol niferus –sut i wneud a chadw ffrindiau, sgiliau datrys problemau, rheoli tymer ac adnabod a deall emosiynau a theimladau. Cynigir cyfleoedd i rannu pryderon a pherchir pob cyfrinachedd. Mae’r cynllun Webster-Stratton yn atgyfnerthu ein hamcanion o greu ymagwedd bositif ymysg y disgyblion a’r staff.

**Gwaith Cartref:** Mae gan yr ysgol bolisi o osod gwaith cartref ar gyfer disgyblion yr Adran Iau. Gall hyn olygu gorffen gwaith, cwblhau tasg benodol, canfod gwybodaeth, holiadur, rhestr sillafu neu waith dysgu. Rydym yn gyrru llyfrau darllen adref yn rheolaidd i ddisgyblion Bl 1, 2, 3, 4, 5, a 6. Bwriad y gwaith cartref yw cefnogi’r addysg sy’n digwydd yn y dosbarth, yn ogystal a rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau darllen.

Carwn bwysleisio eich rôl chwi fel rhieni yn hyn a gobeithiwn y byddwch yn cynorthwyo, yn goruchwyllo ac yn sicrhau fod y tasgau yn cael eu cyflawni hyd gorau gallu pob unigolyn.

Mae llyfryn penodol ar gyfer cofnodi plentyn yn darllen gyda rhiant oherwydd ein bod yn credu fod y weithgaredd yma yn bwysig a gwerthfawr.

## ADDYSG GORFFOROL

Wrth gyflwyno'r pwnc hwn sy'n statudol i bob plentyn yn yr ysgol, ceisir cynllunio rhaglen ddysgu sy'n arwain at weithgareddau a phrofiadau egniol, pwrpasol a rheolaidd sy'n galluogi pob plentyn i brofi mwynhad a llwyddiant. Fe baratoir dau gyfnod yr wythnos hefo disgyblion blynyddoedd Derbyn i 6, ac un cyfnod i ddisgyblion Meithrin. Bydd y plant yn dilyn unedau gwaith gan gynnwys gymnasteg, dawns, nofio, gemau maes a tharo a gweithgareddau awyr agored.



Trefnir gwersi nofio i flynyddoedd Derbyn, 1 a 2,3,4,5 a 6 ar hyn o bryd. Anelir at gael pob plentyn i nofio 25m cyn diwedd eu cyfnod yma.

Nodau'r ysgol o ran chwaraeon a darpariaeth chwaraeon :-

- Rhoi cyfle i'r plant brofi llwyddiant mewn ystod eang o chwaraeon.
- Hybu'r plant i fod yn hyderus yn eu gallu athletaidd a'u defnydd o offer chwaraeon.
- Parhau i gystadlu mewn gweithgareddau dalgylchol/sirol a cheisio ehangu hynny i gystadlaethau newydd pan yn bosibl.
- Manteisio ar gynnig arbenigwyr i hyfforddi ac hyrwyddo polisiau ieuencid y clybiau chwaraeon lleol.
- Hybu ffitrwydd pob plentyn o fewn yr ysgol.
- Trwy yr uchod, gosod sylfaen i fywyd iach a gweithgar a dysgu pob plentyn sut i gymryd rhan a mwynhau gweithgareddau corfforol.

## Campau'r Ddraig/Clwb Chwaraeon

Rydym yn ffodus iawn bod ein hathrawon yn fodlon rhedeg Campau'r Ddraig o'u gwirfodd wedi oriau'r ysgol. Mae'n agored i ddisgyblion yr Adran Iau, a daw amrywiol gystadlaethau yn ei sgil.



## Yr Ysgol Sy'n Hybu Iechyd

Mae'r ysgol yn rhan o'r prosiect hwn ac yn gweithio ar y cyd gydag athrawes ymgynghorol sy'n ddolen gswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod iechyd. Rydym wedi cwblhau pob cam o'r cynllun, ond wrth gwrs yn parhau i gynnal yr amcanion sydd wedi eu gosod o fewn y Cynllun Hybu Iechyd.

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd



## **ALLGYRSIOL**

Mae'r ysgol yn credu'n gryf mewn meithrin a datblygu doniau creadigol ac fe hyrwyddir hyn drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn Eisteddfodau. Bydd yr ysgol bob amser hefyd yn gwneud ei gorau i gefnogi gweithgareddau lleol o'r fath.



Ceir hefyd gyfleoedd i gystadlu mewn gweithgareddau addysg gorfforol -yn aml maent ar benwythnos neu gyda'r nos. Mae'r gweithgareddau hyn yn agored i'r holl ddisgyblion sydd ym marn y Pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan cyfrifol ynddynt.

Mae croeso i aelodau o'r Urdd aros i'n cyfarfodydd rheolaidd yn ystod tymhorau yr hydref a'r gwanwyn.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd 'Clwb Chwaraeon' yn nymhorau'r gwanwyn a haf.

## **ADDYSG RHYW**

Mae polisi cynhwysfawr wedi ei baratoi ac mae ar gael i'w weld pe dymunir hynny.

Cyflwynir yr agweddau o Addysg Rhyw yn ystod gwersi Gwyddoniaeth ac Addysg Personol a Chymdeithasol. Gwneir ymdrech i ymateb i gwestiynau disgyblion yn onest a sensitif ond heb gyflwyno agwedd gaeedig.

Llythyrir gyda rhieni i'w hysbysu os yw y gwaith Gwyddoniaeth yn cynnwys addysg rhyw, ac mae ganddoch yr hawl i eithrio eich plant rhagddo os dyna yw eich dymuniad. Fodd bynnag, cynghorir unrhyw un gydag amheuan i gysylltu gyda'r Pennaeth er mwyn ei drafod ymhellach, cyn gwneud penderfyniad terfynol.

## **ADDYSG AR GYFER DATBLYGIAD CYNALIADWY A DINASYDDIAETH FYD EANG**

Credwn fod ADCDF yn bwysig oherwydd y cyfleoedd mae'n rhoi i ddisgyblion ddatblygu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn a'r ffordd rydym yn gwneud pethau, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn gwella ansawdd bywyd heb niweidio'r blaned i'r dyfodol ac fydd yn hyrwyddo byd tecach a chynaliadwy.

## **ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

Gweithredir y Cod Ymarfer yn yr ysgol hon. Golyga hyn fod unrhyw ddisgybl sy'n profi anawsterau dysgu o unrhyw fath yn derbyn cefnogaeth a'r ddarpariaeth angenrheidiol o fewn yr ysgol neu ymhellach gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Asesir datblygiad y plant yn gyson wrth iddynt gyflawni tasgau yn yr ysgol ac os nad ydynt yn gweithio ar yr un lefel a'r disgwyliadau a'r targedau o fewn blwyddyn arbennig, fe'u gosodir ar un o'r camau o fewn y Cod Ymarfer i dderbyn y gefnogaeth briodol.

Ar hyn o bryd, y Pennaeth sydd yn gyfrifol am ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol. Llunnir 'Cynlluniau Addysg Unigol' ar gyfer disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y ddarpariaeth briodol i'w haddysgu ac i'w cefnogi. Trefnir Adolygiadau Blynyddol er mwyn i rieni drafod datblygiad yng ngwaith y plant hefo'r athrawes dosbarth, staff cefnogi ac asiantaethau allanol.

Dyfernir fod angen i rai disgyblion dderbyn 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' pan fydd gwasanaethau allanol megis Therapyddion Llefaredd, Clyw neu Seicolegwyr Addysg yn ymwneud a'r plant. Gall hyn arwain at Ddatganiad o Anghenion Addysgol Ychwanegol yn dilyn asesiad gan y Seicolegwyr Addysg.

**Uned ABC:** Mae Uned ABC wedi'i sefydlu ar safle Ysgol Maesincla ar gyfer disgyblion y Sir sydd gydag anawsterau dysgu cyn-ysgol.

## **CYFLEOEDD CYFARTAL a CHYDRADDOLDEB HILIOI**

Cydnabyddwn bod ein plant yn tyfu mewn cymdeithas eang a nodweddir gan wahaniaethau, nid yn unig mewn hil ond hefyd crefydd, gwsg, bwyd ac iaith sy'n adlewyrchu'r newidiadau cyfoes hyn. Anelwn, felly, at adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn ac ehangu ar addysg yr holl ddisgyblion i'w galluogi i ddeall a gwerthfawrogi natur aml-ddiwylliannol amrywiol gymdeithasau.

### **Yn Ysgol Cwm y Glo byddem yn:-**

- Darparu cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag fo'i ryw, ei allu, ei gefndir diwylliannol a'i ethnig.
- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn dioddef rhagfarn ar sail hil, cred, rhyw, iaith, gallu addysgol, safle cymdeithasol nac anabled.
- Sicrhau fod holl ystod y cwricwlwm ac holl adnoddau yr ysgol ar gael i bob disgybl.
- Sicrhau fod agweddau cymdeithasol cadarnhaol yn cael eu meithrin yn yr ysgol.
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol.
- Gwared o wahaniaethu anghyfreithlon - yn seiliedig ar ddeddf cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000.

Mae ein polisi Cyfle Cyfartal yn adlewyrchu'r uchod ac ar gael yn swyddfa'r ysgol.

## **CODI TÂL**

Byddwn bob amser yn ceisio cadw costau mor rhesymol a phosibl. Byddwn yn gofyn am gyfraniad e.e. tuag at gost y bws i'r gwersi nofio /tennis/gymnasteg wythnosol (£2.50 ar hyn o bryd).

Rydym yn ffodus bod y Gymdeithas RhaChYCG wedi rhoi cyfraniadau hael tuag at gostau yn y gorffennol. Rhagwelir y bydd nifer o deithiau yn ystod oriau ysgol a fydd yn brofiadau gwerthfawr i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol, yn ôl Deddf Addysg 1988

- hawl i ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at gost o drefnu'r daith
- hawl i ofyn i asiant allanol drefnu'r daith.



Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am dâl am -

- weithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol
- ddifrod a wneir i unrhyw ran o adeilad yr ysgol yn dilyn cam ymddygiad
- golli llyfr neu gyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol

**Mae gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yr hawl i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw'n ymddangos y byddai cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol.**

## **CYTUNDEB YSGOL / CARTREF**

Cyflwynir cytundeb ysgol / cartref i rieni ar ddechrau tymor cyntaf pob plentyn yn yr ysgol. Gwahoddir rhieni, disgyblion a'r Pennaeth i arwyddo'r cytundeb sy'n cynnwys cyfeiriad pendant at ymrwymiad rhieni i gynnal agweddau positif rhwng yr ysgol a'r cartref. Byddwn yn falch petaech yn dychwelyd y cytundeb i'r ysgol cyn gynted a phosibl.

## **CYSWLLT CARTREF**

Yn ogystal a chael ymweld yn unigol â'r ysgol, caiff rhieni hefyd gyfleoedd ffurfiol ddwywaith y flwyddyn i weld neu drafod y gwaith a wneir yn yr ysgol. Gwahoddir hefyd rieni unrhyw un sydd wedi newid athrawes yn nhymor yr Hydref gyda'r bwriad o drafod sut mae eu plentyn wedi setlo mewn dosbarth newydd.

Rhoddir adroddiad llawn am waith yr holl ddisgyblion ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol a gwerthfawrogn eich sylwadau ar yr adroddiad, yn ogystal ag sylwadau y plentyn.

Mae cydweithrediad agos iawn rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol os ydym am sicrhau bod y plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. Mawr obeithiwn y byddwch yn ymddiddori yn addysg eich plentyn ac yn cefnogi'r ysgol.

Gofynnwn am wybodaeth llawn ynglŷn a'r plentyn ac am unrhyw newidiadau pwysig yn ei amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw gyflyrau anghenion meddygol. Darparir ffurflen wybodaeth gynhwysfawr i chi lenwi a'i dychwelyd.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod rhieni yn cael gwybod mewn da bryd am ddiwyddiadau pwysig yng nghalendr yr ysgol trwy 'r 'Newyddlen Fisol', safle we'r ysgol a llythyrau penodol.

Croesawir rhieni i weithgareddau rheolaidd, megis Gwasanaethau, Cyflwyniadau, a'r Mabolgampau.

***Yn unol a chyfarwyddiadau'r Awdurdod, mae'n hanfodol bod unrhyw riant sydd am wirfoddoli gyda gweithgareddau yn yr ysgol gyda DBS cyfredol.***

## DEILLIANNAU A LEFELAU DISGYLIEDIG YN ÔL OEDRAN

Wrth i'r plant gael eu cyflwyni i'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol bydd yr athrawon yn eu hasesu yn barhau gan nodi pa ddeiliant/lefel y mae'r plentyn yn gyrraedd erbyn diwedd Blwyddyn 2 a 6.

Dyma amlinelliad byr o'r deilliannau/lefelau:

Cyfnod Sylfaen: Deiliant 3, 4, 5 a 6 Disgwylir i ddisgyblion Blwyddyn 2 (7 oed) gyrraedd Deiliant 5.

Cyfnod Allweddol 2 : Lefel 2, 3, 4, 5 Disgwylir i ddisgyblion Blwyddyn 6 (11 oed) gyrraedd Lefel 4

## GWASANAETH PRYDAU BWYD

Gwasanaeth Arlwyfaeth Masnachol Gwynedd sy'n gyfrifol am y cinio ganol dydd. Paratoir prydau iachus a maethlon. Pris cinio ysgol ar hyn o bryd yw £11.50 yr wythnos, £2.30 y dydd.

*Dylid talu'r pres o flaen llaw ar ddydd Llun neu ar ddydd Gwener, mewn amlen gydag enw'r plentyn a'i ddsbarth yn glir arno. **Dylid ysgrifennu siec i 'Cyngor Gwynedd'.***



Gofynnir i rieni anfon nodyn i'r ysgol yn rhoi pythefnos o rybudd os yw'r plentyn yn bwriadu trosglwyddo o gymryd cinio ysgol i frechdanau neu o frechdanau i ginio ysgol.

Os ydych yn derbyn Cymorth Incwm, caiff y plentyn ginio di-dâl. Mae'r cwbl yn cael ei drefnu gan yr adran berthnasol ac maent yn hysbysebu'r ysgol pob wythnos gyda diweddariadau.

Gall y plentyn ddod â'i ginio ei hun os dymunwch, ond peidiwch ag anfon poteli gwydr na chaniau diod os gwelwch yn dda. ***Dylai cynnwys y bocs bwyd fod yn iach – ni chaniateir pethau da na diodydd llawn siwgr.***

## CYNLLUN LLEFRITH

Darperir llefrith yn rhad ac am ddim i bob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen.

**Rhowch wybod i ni trwy lythyr os na ddymunwch i'ch plentyn dderbyn y llefrith.**



## BYRBRYD

Mae potel o ddŵr ar gael i bob plentyn yn ddyddiol – maent yn cael ei llenwi yn ôl y gofyn yn y ffynnon bwrpasol. ***Ni chaniateir unrhyw ddiod arall i'w yfed yn ystod y dydd e.e. sudd, diodydd melys ayb.***

Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn rhedeg siop ffrwythau'r ysgol sy'n gwerthu ffrwythau ar gyfer egwyl y bore ar gôst o 25c yr un neu £1 am yr wythnos. Mae'r plant yn cael y rhyddid i wario'r elw ar deganau buarth.

Os ydych yn rhoi byrbryd i'ch plentyn ddod i'r ysgol, gofynnir yn garedig i chi ddarparu ffrwythau yn unig iddynt.

## **GOHEBIAETH**

Rhoddir gwybodaeth rheolaidd am weithgareddau'r tymor trwy 'r 'Newyddlen Fisol'.

Bydd unrhyw ohebiaeth yn ddwyieithog. Gofynnir yn garedig i chi ddarllen pob gohebiaeth yn ofalus os gwelwch yn dda, ac ymateb yn brydlon pan mae'r angen yn codi e.e. caniatâd i fynd a'ch plentyn ar ymweliad.

Yn aml mae gwasanaethau, mudiadau a chymdeithasau yn gofyn i ni rannu pamffledi ar eu rhan. Nid yw'r ysgol o anghenraid yn cytuno gyda, nac yn argymhell y gwasanaethau hyn.

Mae gan yr ysgol wefan – [www.ysgolcwmyglo.org](http://www.ysgolcwmyglo.org) sy'n cynnwys ein cyfrif 'Twitter' er mwyn diweddarau pawb gyda'n newyddion a digwyddiadau.

Byddwn hefyd yn cysylltu trwy e-bost a neges destun.

## **IECHYD A DIOGELWCH YN YR YSGOL**

Amcenir fod pob ymdrech ymarferol a rhesymol wedi digwydd i sicrhau amodau iach a diogel er lles holl blant ac oedolion sy'n defnyddio adeiladau, iard a thiroedd yr ysgol. Bydd ymarferion tan yn digwydd yn dymhorol. Yn ystod ymweliadau Cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd gofynnir yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen caniatâd a dderbynnir drwy lythyrau a'u dychwelyd i'r ysgol.

Mae plant, yr athrawon, staff ategol a'r cymorthyddion yn ymwybodol o ystyriaethau diogelwch wrth:

- Ymdrin ag offer addysg gorfforol, dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth
- Symud o amgylch yr ysgol
- Arolygu plant yn ystod amser egwyl.

Adolygir rheolau diogelwch yn gyson:

- Ni chaniateir rhedeg o fewn yr ysgol.
- Rhaid bod yn ymwybodol o eraill wrth symud o gwmpas yr ysgol.
- Ni chaniateir i ddisgyblion agor drws yr ysgol i unrhyw ymwelwyr.
- Cofio rheolau Addysg Gorfforol a nofio a gwisgo yn addas.
- Peidio gadael tir yr ysgol.
- Cynnal ymarfer tân unwaith y tymor.
- Rhaid dod oddi ar gefn beic pan ar dir yr ysgol.
- Pawb i fynd allan o'r adeilad yn ystod amser egwyl.
- Rheoli'r symud ceir ar y buarth yn ofalus.

## GORUCHWYLIO

Ein nod yw sicrhau diogelwch y plant a chadw safon dderbyniol o drefn a rheolaeth.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefniadau goruchwylio plant gan yr athrawon a'r gweinyddesau yn ystod y cyfnodau isod:

- > Cyn dechrau'r ysgol 10 munud (8.50 – 9.00)
- > Egwyl y bore 15 munud (10.40 – 10.55)
- > Egwyl y prynhawn 10 munud (2.15 - 2.25)
- > Diwedd y prynhawn 10 munud (3.30 – 3.40)

### A) TREFNIADAU TYWYDD SYCH

1. Gweithredir y goruchwylio drwy system rota dyddiol.
2. Bydd y staff ar ddyletswydd yn goruchwylio'r buarth drwy gydol y cyfnod.
3. Gwneir trefniadau i gyflenwi pan fo aelod o staff yn absennol.

### B) TREFNIADAU TYWYDD GARW

Ar gyfnodau o dywydd garw, yr athrawon dosbarth fydd yn gyfrifol am baratoi gweithgaredd i'r plant ac i'w goruchwylio yn ystod yr egwyl.

### C) TREFNIADAU AMSER CINIO

Goruchwylir plant gan o leiaf dwy oruchwylwraig. Ar ôl i'r plant orffen bwyta, mae'r goruchwylwyr yn mynd allan gyda'r plant ac yn eu goruchwylio ar y buarth hyd amser dod i mewn.

Yn ystod tywydd garw, byddant yn goruchwylio'r plant yn eu dosbarthiadau.



## CYNNAL YMDDYGIAD

Yma yn Ysgol Cwm y Glo mae ein polisi yn nodi yn glir y dylid rhoi pwyslais ar y cadarnhaol, gan annog a chanmol, ynghyd a mynnu ymddygiad priodol bob amser. Credem bod hyn yn meithrin ac yn atgyfnerthu parch at gyfoedion, oedolion ac eiddo.

Rydym yn ceisio creu ethos priodol trwy 'r Ysgol a fydd yn sicrhau amgylchfyd ac awyrgylch hapus a threfnus, trwy strategaethau a fydd yn ymgynghedd tuag at ddatblygu hunan ddisgyblaeth.

Rydym yn gweithredu'r drefn Webster-Stratton trwy 'r Ysgol gyfan gan ganmol gweithredoedd penodol a chadarnhaol. Hyn yw strategaeth yr AALL hefyd erbyn hyn.

Gwobrwyir ymdrech gyda disgyblion cael eu canmol a'u gwobrwyo mewn seremoni wobrwyo wythnosol.

**Os yw plentyn yn parhau i gamymddwyn (er gwaethaf pob ymdrech rhesymol gan yr Ysgol), gan amharu ar rediad naturiol y dosbarth neu'r Ysgol rydym yn dilyn canllawiau'r A.A.LI. gyda'r posibilrwydd o wahardd y plentyn.**

Ni chaniateir iaith anwedus o unrhyw fath dan unrhyw amgylchiadau.

Ni chaniateir ymddygiad bygythiol o unrhyw fath dan unrhyw amgylchiadau.

Mae'r Llywodraethwyr yn gadarn o'r farn bod dylid cymryd camau tuag at waharddiad os digwydd hyn.

### **DOGFENNAU SYDD AR GAEL I'W GWELD**

Mae gennych hawl os dymunwch i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig / Cynulliad, Polisiâu yr Awdurdod Addysg, Polisiâu'r Corff Llywodraethol, adroddiadau AEM ar yr ysgol, meysydd llafur ac adroddiad blynyddol i rieni.

Cewch wneud trefniant gyda'r Pennaeth ar gyfer hyn.

Mae'r Ysgol yn berchen ar Gynllun Cyhoeddi Cyfredol.

### **YMDRIN Â CHWYNION**

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd mae Cyrff Llywodraethol ysgolion a'r Awdurdod yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafod gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, felly bydd Corff Llywodraethol yr ysgol yn disgwyl bod yn cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno cwyn ffurfiol.

### **CYMDEITHAS RHIENI A CHYFEILLION YSGOL CWM Y GLO**

Anogir chwi yn gryf i ymuno yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal â gweithgareddau codi arian a drefnir, gan amlaf, gan Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion Ysgol Cwm y Glo. Maent yn griw hynod o weithgar i'r achos, sy'n llwyddo i godi swm sylweddol o arian bob blwyddyn. Mae'n ffordd arbennig i rieni ddod i adnabod ei gilydd, staff yr ysgol a'r gymuned leol.

## AMDDIFFYN PLANT

Mae pob aelod o staff yn yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam dim corfforol, emosïynol neu rywiol, y mae'n ddyletswydd a y staff, yn unol a Threfn Diogelu'r Sir, i sôn am y mater wrth Gydgysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall y cydgysylltydd ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal âg asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai bydd rhaid cyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y Sir. Yr Adran Gwasanaethau cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Y Pennaeth yw cydgysylltydd Diogelu Plant yr ysgol. Mr. Aaron Bayley yw'r Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb.

### Canllawiau Amddiffyn Plant

*Fel rhan o gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posib a chyfeirio'u pryderon ar y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.*

### Pryderu am blentyn

Os ydych yn pryderu am blentyn cysylltwch a'r isod:

**Cyd-gysylltydd Ysgol:** Mrs. Nia G. Oliver  
[niaglynoliver@gwynedd.llyw.cymru](mailto:niaglynoliver@gwynedd.llyw.cymru)  
01286 870 860

**Aelod o'r Llywodraethwyr:** Mr. Aaron Bayley

**Person cyswllt Awdurdod:** Linda Jones  
Swyddog Lles 07775 500 977

Neu

**Tim Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol**  
01758 704 455 (9.00 – 17.00 Llun i Gwener)

01248 353 551 (unrhyw amser arall)

Ebost: [cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru)

## Ystadegau mae'n statudol eu cyflwyno yn y llawlyfr:-

### Cyfeirir yma at 2015 - 2016

#### PRESENOLDEB

Nifer o ddisgyblion – 35; Presenoldeb –94.8%; Absenoldebau awdurdodedig – 5 %; Absenoldebau Anawdurdodedig – 0.2%.

#### Perfformiad Ysgol Cwm-Y-Glo 2016

##### CS

	Datblygiad Iaith	Datblygiad Mathemateg	Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles	DPC
Canlyniadau 2016- %	100%	100%	100%	100%

##### CA2

	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	DPC
Canlyniadau 2016 – %	100%	100%	100%	100%	100%

